**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**18 MAI 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 18 Mai 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Jones (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Bernie Attridge, Bill Crease, Chris Dolphin, Alasdair Ibbotson, Gina Maddison, Jason Shallcross, Kevin Rush, Sam Swash a Linda Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol) a'r Cynghorydd Vicky Perfect

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd y Cyngor), y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant a Chymunedau Gwydn), y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog (Llywodraethu) a'r Rheolwr Corfforaethol (Pobl a Datblygu Sefydliadol)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a'r tîm

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cafwyd cadarnhad yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor ddod o'r Grŵp Annibynnol. Cafodd y Pwyllgor wybod fod y Cynghorydd Richard Jones wedi cael ei benodi i'r rôl ar gyfer blwyddyn y cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penodiad y Cynghorydd Richard Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor.

## 2. PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cynghorydd Bernie Attridge y Cynghorydd Bill Crease fel Is-gadeirydd y Pwyllgor, ac fe eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Richard Jones.

Tynnwyd enwebiad y Cynghorydd Alasdair Ibbotson ar gyfer y Cynghorydd Chris Dolphin yn ôl ar gais y Cynghorydd Dolphin.

Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. Pan gafwyd pleidlais ar y mater cymeradwywyd yr enwebiad ar gyfer y Cynghorydd Crease.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Bill Crease yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

## 3. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Bernie Attridge gysylltiad personol â chofnod rhif 7 (Diweddariad Diwedd Blwyddyn Cyflogaeth a'r Gweithlu) oherwydd aelodau teulu a gyflogir gan y Cyngor.

**4. COFNODION**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2023, yn amodol ar gynnwys yr ymddiheuriad a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Kevin Rush, fel y cynigiwyd ac eiliwyd gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a Bill Crease.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiad, bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

**5. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad ar gamau gweithredu a gododd o gyfarfodydd blaenorol a dywedodd fod y gweithdy ar Swyddfa'r Crwner wedi'i drefnu ar gyfer 13 Medi 2023. Dywedodd hefyd fod y sylwadau a godwyd yn y cyfarfod blaenorol ar Gynllun y Cyngor wedi'u rhannu â'r Prif Swyddogion er mwyn gallu dosbarthu ymateb i'r Pwyllgor cyn i Gynllun y Cyngor gael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Mehefin.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Kevin Rush a Linda Thomas.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

**6. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Wrth gyflwyno'r rhaglen gwaith i'r dyfodol bresennol i'w hystyried, cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i holi ynghylch sylwadau'r Cynghorydd Bernie Attridge o ran cael diweddariad ar Gyd-bwyllgorau Corfforaethol.

Ar sail hynny, cynigwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a Bill Crease.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

**7. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR DDIWEDD BLWYDDYN AM GYFLOGAETH A'R GWEITHLU**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad diweddaru diwedd blwyddyn ar ystadegau a dadansoddiad y gweithlu ar gyfer 2022/23.

Rhoddodd y Rheolwr Corfforaethol (Pobl a Datblygu Sefydliadol) drosolwg o'r meysydd allweddol, gan gynnwys y cynnydd mewn trosiant staff a oedd yn bennaf oherwydd y farchnad lafur bresennol, a rhoi'r gorau i'r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu lle'r oedd rhai gweithwyr wedi'u hadleoli'n llwyddiannus i swyddi eraill.

Cafwyd ychydig o welliant mewn presenoldeb o 2021/22, ac iechyd meddwl yw'r prif reswm o hyd dros absenoldebau, problemau cyhyrysgerbydol yn ail. Nodwyd bod y gyfradd absenoldeb cyfwerth â llawn amser o 5.59% yn Sir y Fflint yn dilyn y duedd genedlaethol. Nododd data diweddar a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol gyfradd absenoldeb uwch nag erioed yn y DU ers 2004, a nododd gyfraddau absenoldeb uchel ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus ym maes gofal, hamdden a gwasanaethau rheng flaen yn 2022/23. Nododd y data hefyd fod cyflyrau iechyd hirdymor ar eu huchaf ers 2008.

Atgoffwyd y Pwyllgor am yr ystod o ymyriadau a chefnogaeth sydd ar gael i weithwyr y Cyngor, tra'n nodi ffactorau eraill megis y nifer cynyddol o broblemau iechyd sy'n gysylltiedig ag oedran ac anghenion mwy cymhleth defnyddwyr gwasanaethau mewn lleoliadau gofal cymdeithasol. Yn ogystal, roedd ôl-groniad apwyntiadau meddygol allanol, asesiadau a thriniaethau mewn llawer o achosion yn estyn absenoldebau ac yn atal gweithwyr rhag dychwelyd i'r gwaith; problem sy'n berthnasol ledled y DU.

O ran gweithwyr asiantaeth, dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd pob un o'r 91 o leoliadau gweithredol a gofnodwyd ar 31 Mawrth 2023 yn ymgysylltu ac yn gweithio ar yr adeg honno. Er bod gwariant cronnol ar asiantaethau wedi rhagori ar y targed, roedd y rhan fwyaf o'r tanwariant cyflog o nifer uchel o swyddi gwag yn y Gwasanaethau Stryd a Chludiant a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y cyfnod wedi'i ddefnyddio ar gyfer penodiadau asiantaeth. Yn ogystal â chael diweddariad ar ymarferion recriwtio yn y Gwasanaethau Stryd, atgoffwyd yr Aelodau bod gweithwyr asiantaeth yn adnodd hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau'r Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Bernie Attridge, rhoddodd y Rheolwr Corfforaethol enghreifftiau o fanteision defnyddio gweithwyr asiantaeth ochr yn ochr â'r broses recriwtio. O ran presenoldeb, nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod gweithio gartref yn cyfrannu at absenoldebau a byddai arolwg pellach i weithwyr yn helpu i nodi unrhyw broblemau. Eglurwyd bod mwyafrif helaeth y staff yn gweithio yn eu gweithle arferol, gan gynnwys Gwasanaethau Stryd a Chludiant a Gofal Cymdeithasol, sef y cofnod uchaf o absenoldebau.

Meddai'r Prif Weithredwr, er gwaethaf ymyrraeth gynnar gan y tîm Iechyd Galwedigaethol i gefnogi gweithwyr sy'n dychwelyd i'r gwaith, roedd adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adlewyrchu effaith genedlaethol ôl-groniad apwyntiadau meddygol allanol. Dywedodd ei bod yn bwysig deall y gofyniad sylfaenol ar gyfer gweithwyr asiantaeth mewn gwasanaethau rheng flaen fel y Gwasanaethau Stryd, a siaradodd am gynlluniau i symleiddio'r broses ymgeisio ar gyfer y gweithwyr asiantaeth hynny sydd wedi bod mewn swyddi gwag ers nifer o fisoedd.

Awgrymodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i godi pryderon am effaith ôl-groniad yn y gwasanaeth iechyd.

Mewn ymateb, eglurodd y Prif Weithredwr fod y problemau ehangach ym maes iechyd yn cael eu cydnabod yn glir ac y byddai angen i gynghorau weithio drwy'r heriau hynny.

Dywedodd y Rheolwr Corfforaethol fod data absenoldeb cymharol a gafwyd gan awdurdodau Cymreig eraill hyd yma yn dangos bod Sir y Fflint ar hyn o bryd yn y chwartel uchaf o ran presenoldeb. Cytunodd i rannu dadansoddiad o'r ystod lawn o ddata adeg ei gyhoeddi ym mis Medi.

Wrth siarad am ei phrofiadau ei hun, diolchodd y Cynghorydd Gina Maddison i'r swyddog am dynnu sylw at salwch sy'n gysylltiedig ag oedran, a fyddai'n anochel yn cynyddu ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus wrth i'r oedran pensiwn gynyddu.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bill Crease, rhoddwyd eglurhad ar y fframwaith a ddefnyddir gan y Cyngor ar gyfer penodi gweithwyr asiantaeth.

Pan ofynnodd y Cynghorydd Jason Shallcross iddo am absenoldebau yn gysylltiedig â rolau a lleoliadau, siaradodd y Rheolwr Corfforaethol am y prif effaith ar wasanaethau rheng flaen megis Gwasanaethau Stryd, lle mai iechyd meddwl oedd y prif reswm dros absenoldeb. Aeth ymlaen i ddarparu gwybodaeth am bolisi cadarn y Cyngor ar gyfer gweithwyr sy'n adrodd am absenoldebau, atgyfeirio salwch sy'n gysylltiedig â straen i Iechyd Galwedigaethol a'r dull cyfunol o gynnal cynadleddau achos ar gyfer absenoldebau hirdymor.

Gofynnodd y Cynghorydd Sam Swash a oedd data ar absenoldebau oherwydd iechyd meddwl yn cael ei ddadansoddi'n faterion sy'n ymwneud â gwaith neu faterion nad ydynt yn ymwneud â gwaith. Dywedodd y Rheolwr Corfforaethol nad oedd hyn yn cael ei gofnodi a bod cefnogaeth yn cael ei roi beth bynnag fo'r rhesymau, gydag atgyfeiriadau Iechyd Galwedigaethol ac asesiadau risg straen yn nodi unrhyw faterion yn ymwneud â gwaith i fynd i'r afael â hwy. Cytunodd i adolygu data ar y staff sy'n gadael ysgol yn wirfoddol, er mwyn sefydlu a oedd gwybodaeth ar gael am y gyfran sy'n gadael i weithio mewn ysgol arall yn hytrach na gadael y proffesiwn addysg yn gyfan gwbl.

Ar gwestiwn gan y Cynghorydd Kevin Rush, eglurwyd ei bod yn ofynnol i reolwyr sicrhau bod gweithwyr yn cwblhau asesiad Offer Sgrin Arddangos ar gyfer y gweithle, gan gynnwys unrhyw ardaloedd gweithio o gartref.

Tra'n cydnabod yr esboniadau ynghylch cyfraddau absenoldeb a gwariant ar asiantaethau, holodd y Cadeirydd a ddylai'r targedau fod yn fwy realistig. Dywedodd y Rheolwr Corfforaethol fod targedau'n cael eu hadolygu a bod cydbwysedd i sicrhau eu bod yn ddigon heriol i geisio gwelliant. O ran cwestiynau eraill, rhoddodd wybodaeth am lwyddiant y rhaglen brentisiaeth ac ar y trosiant staff o 11.46% ar gyfer 2022/23, cytunodd i ymchwilio i ddata awdurdodau tebyg er mwyn eu cymharu.

Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau am y dull o reoli gwariant gweithwyr asiantaeth a'r cyd-destun y tu ôl i'r data a ddangoswyd yn yr adroddiad. Byddai'n myfyrio ar y sylwadau a wnaed ynghylch targedau cyraeddadwy a godwyd gan y Cadeirydd, gan nodi bod y dirwedd wedi newid ac efallai y bydd bellach angen ystyriaeth o'r fath.

Amlygwyd gan y Rheolwr Corfforaethol bod canlyniadau ar gyfer pedwar o'r naw maes wedi bod yn is na'r targed ac awgrymodd y dylai unrhyw adolygiad gydnabod y gwahanol ofynion ar wasanaethau.

Dywedodd y Cadeirydd y gellid asesu targedau yn fwy cyffredinol ac y dylai data ar werthusiadau fod yn rhan o adroddiadau yn y dyfodol, yn enwedig i roi sicrwydd ar brosesau ar gyfer y rhai sy'n gweithio gartref.

Diolchodd y Cynghorydd Paul Johnson i'r swyddogion am yr adroddiad a'r cyd-destun cenedlaethol y tu ôl i rywfaint o'r data. Diolchodd hefyd i'r Aelodau am eu sylwadau.

Mewn ymateb i sylwadau ar amlder yr adroddiad, gofynnodd y Cadeirydd i gael un bob chwe mis.

Ar sail hynny, cynigwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Bill Crease a Bernie Attridge.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi Adroddiad Gwybodaeth y Gweithlu Diwedd Blwyddyn ar gyfer 2022/23.

## 8. AELODAU'R WASG YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11am)

…………………………
**Y Cadeirydd**